8FED O DACHWEDD

# Ysgol Treganna

Cylchlythyr wythnosol



## Wythnos yma

### Pêl droed

Da iawn i dimoedd pêl droed merched bl 5 a 6 a thimoedd pêl droed cymysg bl 3 a 4 a wnaeth chwarae wythnos yma yn nhwrnamaint pêl droed yr Urdd.
Llongyfarchiadau mawr i Ysgol Treganna am ennill twrnamaint pêl droed merched bl 5 a 6 a thwrnamaint pêl droed cymysg bl 3 a 4! Tipyn o gamp! Rydym yn falch iawn o bob un disgybl wnaeth fynychu'r twrnamaint a diolch enfawr i'r staff a wnaeth hyfforddi'r holl dimoedd.

### Ein Senedd Ni

Cafodd rhai o ddisgyblion bl 6 profiad gwych yr wythnos yma yn eu cyfarfod cyntaf o "Ein Senedd Ni". Aeth Morus, Katie, Fflur ac Archie lawr i'r senedd ym Mae Caerdydd i wylio sesiwn holi ac ateb Eluned Morgan, a chyfarfod â'r Aelod Seneddol Rhys ab Owen.
Yn mynd i siambr Tŷ Hywel i drafod gyda chynrychiolwyr o ysgolion Cymraeg y brifddinas gan benderfynu ar eu blaenoriaethau fel senedd ar gyfer y flwyddyn . Edrychwn ymlaen at ein cyfarfod nesaf ym mis Ionawr.

### Bore Agored

Diolch i bawb wnaeth ddod i'n bore agored heddiw. Roedd yn hyfryd cael croesawu darpar rieni newydd i Ysgol Treganna. Cafodd y teuluoedd gyfle i fynd am dro o gwmpas yr ysgol, ymweld â dosbarthiadau'r ysgol a chyfarfod gyda staff. Rydym yn gobeithio bod pawb wedi mwynhau cael cip olwg ar fywyd yr ysgol ac edrychwn ymlaen at eich croesawu i deulu Treganna.

## Calendr

**Diwrnod Gwrth fwlio 12/03/24**

**Diwrnod Plant Mewn Angen 15/11/24 Disgyblion i wisgo dillad eu hun. "Mynegwch eich hun!**

## Y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon




**Asda Cashpot**

Mae'r cynllun "Asda cashpot" i ysgolion, yn cau ar y 30ain o Dachwedd. Os nad ydych wedi arwyddo i fyny, cofiwch wneud cyn diwedd y mis.

<u>Sut allai wneud hyn?</u>
Lawrlwythwch yr ap ac arwyddwch i fyny
Ewch i "Cashpot" a dewiswch Ysgol Treganna
Pan yn talu cofiwch bob tro i sganio'r ap!
Diolch yn fawr

**Apêl diolchgarwch Banc Bwyd Caerdydd**

Diolch i bawb am eich rhoddion hael!

Casglwyd 343.5kg fel rhan o'n hapêl diolchgarwch.

Byddwn hwn yn ddigon i 30 o bobl leol gael parsel bwyd brys 3 diwrnod. Diolch am eich cefnogaeth.

**Dyma ddyddiadau sioeau Nadolig mis Rhagfyr.**

| Pwy? | Pryd? | Faint o'r gloch? | Ble? |
|---|---|---|---|
| Meithrin (Math) | 19/12/24 | 10.00yb a 2.00yp | Neuadd yr ysgol |
| Derbyn | 16/12/24 | 2.00yp | Neuadd yr ysgol |
| Manawydan (Bl 1,2 a 3) | 4/12/24 | 10.00yb | Neuadd yr ysgol |
| Branwen (Bl 1,2 a 3) | 4/12/24 | 2.00yp | Neuadd yr ysgol |
| Pwyll (Bl 1,2 a 3) | 5/12/24 | 10.00yb | Neuadd yr ysgol |
| Manawydan (Bl 4,5 a 6) | 12/12/24 | 5.00yp | Neuadd yr ysgol |
| Branwen (Bl 4,5 a 6) | 11/12/24 | 5.00yp | Neuadd yr ysgol |
| Pwyll (Bl 4.5 a 6) | 10/12/24 | 5.00yp | Neuadd yr ysgol |

**Patrwm Iaith**

**Wythnos nesaf, dyma batrwm iaith yr wythnos**
Hoffwn i gael…
Her
Fy hoff beth i yn y byd i gyd ydy…

**Testun trafod yr wythnos**
Pam bod ailgylchu yn bwysig?

**Cân yr wythnos**
Eden - Waw

**Idiom yr wythnos**
Tri chynnig i Gymro